O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2293 (Cy. 240)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Pontyfenni i Gylchfan Llanboidy, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud	*15 Medi 2011*
Yn dod i rym	*26 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Pontyfenni i Gylchfan Llanboidy, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys.

ystyr "cyfnod y gwaith," ("*works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 26 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of trunk road"*) yw'r darnau o'r gefnffordd, yn Sir Gaerfyrddin, sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;